

Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 2025/26

Adolygwyd: **Awst 2024**
Mabwysiadwyd:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y polisi hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Tîm Trawsnewid Addysg
Llys Einion
Abertyleri
NP13 1DB

E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Rhif Ffôn: 01495 355132 / 01495 355470

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ddarpariaeth cludiant eich plentyn neu os ydych angen cymorth i wneud cais, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Tîm Cludiant
Llys Einion
Abertyleri
NP12 1DB

E-bost: hometoschooltransport@blaenau-gwent.gov.uk

Rhif Ffôn: 01495 311556

Mae Blaenau Gwent wedi cyflwyno system gais ar-lein ar gyfer rhieni i wneud cais am gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol neu Ôl 16 ar gyfer eu plentyn/plant. Edrychwch ar y ddolen islaw drwy'r dudalen ar y wefan os gwelwch yn dda:

<http://www.blaenau-gwent.gov.uk/resident/schools-learning/school-transport/>

Tudalen Cynnwys

Disgrifiad	Tudalen
1.0 Cyflwyniad	4
2.0 Cefndir	4
3.0 Pwy sy'n gymwys: Y prif feini prawf	4/5
4.0 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	5
4.1 Ceisiadau am gludiant (darpariaeth ysgol ADY)	5/6
4.2 Lleoliadau mewn ysgolion preswyl heb fod yn y Fwrdeistref Sirol	6
5.0 Cludiant plant sy'n derbyn gofal	7
6.0 Sut i wneud cais am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol	7
7.0 Cludiant yn ôl disgrisiwn i feithrinfa cyfrwng Cymraeg	8
8.0 Ystyriaethau cludiant.	8
8.1 Newid cyfeiriad - trefniadau cludiant	8
8.2 Ysgolion gyda champysau/safleoedd lluosog	8
8.3 Disgyblion a gafodd eu gwahardd yn barhaol a symudiadau wedi'u rheoli	8
8.4 Gweithgareddau cyn/ar ôl ysgol	9
8.5 Tripiâu ysgol	9
8.6 Hebryngwyr	9
8.7 Ad-dalu cymorth teithio	9
8.8 Disgyblion ar ymweliadau cyfnewid	9
8.9 Presenoldeb disgyblion	10
8.10 Ysgolion a ffafriir/Dewis rhieni	10
8.11 Disgyblion dan 16 sy'n mynychu darpariaeth hyfforddiant alwedigaethol	10
8.12 Preswyliaeth ddeuol	10
8.13 Ardaloedd gwledig/cysylltiadau cludiant	10
8.14 Cyflyrau meddygol dros dro	10/11
8.15 Cynigion trefniadaeth ysgol	11
9.0 Teithio Ôl 16	11
9.1 Hawl i gludiant	11/12
9.2 Grant teithio	12
9.3 Addysg cyfrwng Cymraeg/Ffydd	12
9.4 Sut i wneud cais	12
10.0 Gweithdrefnau	12
10.1 Llwybrau diogel i'r ysgol/trefniadau teithio gan ddysgwyr	12/13
10.2 Tywydd garw ac ymateb argyfwng COVID-19	13
10.3 Gwaharddiadau o gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol	13/14
10.4 Problemau a gwaharddiadau cludiant ADY	14/15
10.5 Diogelu	15
10.6 Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol - Cod Arfer Da	16
10.7 Cludiant am ddim - hawl i ddileu	16
10.8 Gweithdrefn apelio	16
10.9 Gweithdrefn monitro	16/17
11.0 Geirfa	17/18
11.1 Ysgolion Blaenau Gwent	18/19

1.0 Cyflwyniad

Cafodd y ddogfen bolisi hon ei chynhyrchu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gydymffurfio gyda Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Diben y polisi yw sicrhau fod gwybodaeth berthnasol am drefniadau rhwng y cartref a'r ysgol ac ôl 16 ar gael i rieni/gofalwyr, disgyblion a phartneriaid. Caiff y Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r Cyngor wedi datblygu cod ymarfer i gefnogi trefniadau teithio diogel. Mae'r cod ymarfer yn rhan o'r broses gais ac yn sicrhau fod dysgwyr a gweithredwyr yn gwybod am y disgwyliadau sydd arnynt tra maent yn defnyddio/darparu cludiant.

- [Teithio i'r Ysgol – Cod Ymarfer Da \(blaenau-gwent.gov.uk\)](http://blaenau-gwent.gov.uk)

2.0 Cefndir

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cludiant yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Caiff y pellter ar gyfer cyfrif hawl i gludiant ei ddiffinio fel pellter teithio'r llwybr diogel byrraf sydd ar gael. Caiff llwybrau eu dynodi yn unol â'r weithdrefn asesu risg a fanylir yn Narpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol (2014).

Dan adran 32 Deddf Addysg 2002 (a ddiwygiwyd gan adran 21 y Mesur), mae gan gynghorau y grym i newid amserau sesiynau ysgol **os ystyrir bod angen y newid neu bod hynny'n gyfleus er mwyn hyrwyddo defnydd dulliau cynaliadwy o deithio, neu i wneud trefniadau teithio yn fwy effeithlon neu effeithiol.**

3.0 Pwy sy'n gymwys: Y prif feini prawf

Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn darparu cludiant am ddim i blant sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, lle mae'r pellter rhwng y cartref â'r ysgol dros y pellter teithio penodol a fanylir islaw:

- mwy na 1.5 milltir o'r cartref ar gyfer disgyblion dan 8 oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) ond o oedran ysgol statudol. Bydd unrhyw gludiant a roddir yn parhau yn ei le ar gyfer yr holl flwyddyn academaidd
- mwy na 2 filltir o'r cartref ar gyfer plant 8 oed a throsodd (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd).

Caiff pellteroedd eu mesur yn defnyddio system mapio gwybodaeth ddigidol y Cyngor i benderfynu ar y llwybr cerdded diogel byrraf sydd ar gael rhwng cyfeiriad y cartref a phrif glwyd yr ysgol a fynychir. Gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio disgrisiwn i gymeradwyo cludiant o fewn tua 0.1 milltir o'r pellteroedd uchod yn seiliedig ar y meini prawf presennol ar bellter Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a nodir uchod. Dim ond lle mae darpariaeth bresennol gyda lleoedd gwag y cymeradwyir cludiant.

Gall rhieni ddewis ysgol cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol enwadol ar gyfer eu plentyn. Bydd y plentyn yn gymwys am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol i ddalgylch priodol yr ysgol. Pan fydd yr ysgol dalgylch yn llawn ac yn methu derbyn disgybl, darperir cludiant am ddim i'r ysgol agosaf nesaf sydd ar gael sydd â lle i

gymryd y plentyn, cyhyd â bod y cartref yn 1.5 milltir neu fwy o'r ysgol ar gyfer disgyblion dan 8 oed neu 2 filltir ar gyfer disgyblion 8 oed a throsodd.

Trefnir darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i gyd-daro gyda dechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol a chaiff ei ddarparu yn ystod amser ysgol y tymor. Ni chaiff cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ei ddarparu ar gyfer clybiau brechwast, clybiau ar ôl ysgol neu ysgolion haf.

Caiff cludiant ei ddarparu o bwyntiau codi mewn safleoedd bws a gymeradwywyd ar y llwybr trafndiaeth gyhoeddus agosaf at gartref y disgybl, lle'n bosibl.

*Caiff yr holl gludiant a ddyfernir ei adolygu'n gyfnodol yn unol gyda newidiadau mewn amgylchiadau'n gysylltiedig gyda gofynion cludiant y disgybl(ion).

4.0 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Cyngor yn credu mewn annibyniaeth ar gyfer pob disgybl ac yn hyrwyddo hynny. Mae hyn yn annog byw annibynnol yn ogystal ag iechyd a llesiant.

Yn unol gyda'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried darparu cludiant ar gyfer disgyblion gydag ADY hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd yn dilyn eu pen-blwydd yn 19 oed. Bydd y Cyngor yn darparu cymorth cludiant ar gyfer disgyblion gyda ADY yn unol â'r meini prawf dilynol ar gymhwyster:

- os yw'r disgybl yn gymwys ar sail pellter;
- os yw'r tîm ADY wedi dynodi cludiant fel bod yn ofyniad beth bynnag yw'r pellter, oherwydd natur angen meddygol, angen dysgu ychwanegol a/neu anabled y disgybl; neu
- os yw'r tîm ADY yn penderfynu nad oes unrhyw ddarpariaeth addysg addas ar gael o fewn y Fwrdeistref sy'n diwallu anghenion y disgybl. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r Cyngor yn ceisio sicrhau lleoliad addas tu allan i'r sir.

*Caiff y trefniadau uchod eu hadolygu yn unol â newidiadau i amgylchiadau'r disgybl a all effeithio ar eu hawl neu ofyniad am gludiant.

Os yw rhiant yn dewis ysgol heblaw'r ysgol a enwir gan dîm ADY y Cyngor, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau trefniadau cludiant ar gyfer eu plentyn a thalu am y costau cysylltiedig.

4.1 Ceisiadau am Gludiant: Darpariaeth ADY

Bydd disgyblion sydd angen cludiant ADY sy'n byw fwy na 1.5 milltir (ar gyfer rhai dan 8 oed) neu fwy na 2 filltir (ar gyfer rhai rhwng 8-16 mlwydd oed) o'u darpariaeth ADY agosaf a gytunwyd, yn gymwys yn awtomatig am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.

*Dylid nodi – mewn achosion lle mae'r ysgol yn ddewis y rhiant ac nid y ddarpariaeth a benderfynwyd gan y Panel ADY, **ni ddarperir cludiant.**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses er mwyn asesu anghenion teithio plant a all fod angen cludiant ADY fel sy'n dilyn:

- Bydd angen i bob lleoliad a gytunwyd gan y Panel ADY ar gyfer disgyblion gyda ADY gael eu hystyried gan y tîm Cludiant i benderfynu os y cafodd y meini prawf ar gyfer cymhwyster eu diwallu.
- Os dynodir fod angen cludiant, caiff y ffurflen gais ei llenwi ar-lein gan rieni, unwaith y rhoddwyd cadarnhad lleoliad a'i dychwelyd i'r tîm ADY ar gyfer cymeradwyaeth. Caiff hyn wedyn ei anfon at y tîm Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol i sicrhau cludiant.
- Dim ond os yw rhiant/gofalwr am hynny y caiff ffurflenni aesu risg disgyblion unigol ei llenwi, neu os oes gan y disgybl anghenion sy'n gofyn am lenwi'r ffurflen hon, e.e. anawsterau dybryd a lluosog. Bydd y tîm ADY yn cydlynu llenwi'r ffurflen a gaiff wedyn ei thrafod yn y cyfarfod ar y cyd rhwng Addysg/Cludiant Rhwng yr Ysgol a'r Cartref. Bydd y cyfarfod yn penderfynu ar anghenion cludiant y disgybl, ynghyd â'r math o gludiant sydd ei angen.
- Mae'r Tîm Cludiant angen 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn Ffurflen Gais Cludiant Teithwyr, er mwyn trefnu cludiant. Lle mae anghenion cludiant y disgybl yn golygu fod angen i'r Cyngor dendro a/neu ganfod hyfforddiant arbenigol, bydd yr amserlen yn fwy na 15 diwrnod a chaiff ei benderfynu ar sail achos unigol.

Lle cytunwyd ar gludiant, bydd y Swyddog Cludiant yn cysylltu â'r rhiant ac yn eu hysbysu am y trefniadau. Mewn achosion lle gwrthodir ceisiadau am gludiant, bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn hysbysiad gan y tîm ADY, hefyd yn nodi eu hawl i apelio.

4.2 Lleoliadau mewn ysgolion preswyl heb fod yn y Fwrdeistref Sirol

Gall disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth fod angen lleoliadau mewn ysgol breswyl. Caiff lleoliadau preswyl eu penderfynu gan Banel Achosion Cymhleth Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r gofynion cysylltiedig yn cael eu hystyried ar sail achos unigol. Rhoddir ystyriaeth i gost cludiant wrth ystyried lleoliadau.

Gellir darparu cludiant ar gyfer lleoliadau preswyl ar y sail ddilynol:

- Byrddio wythnosol neu bythefnosol - cludiant i'r disgybl ddychwelyd adref bob wythnos neu bob bythefnos yn ystod y tymor.
- Byrddio tymor 38 wythnos - cludiant ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor ac un daith ddychwel ychwanegol ym mhob hanner tymor.
- Lleoliadau preswyl 51/52 wythnos - un daith ddychwel ym mhob tymor.

5.0 Cludiant plant sy'n derbyn gofal

Bydd Gwasanaethau Plant yn penderfynu os ystyrir yn briodol i blant sy'n derbyn gofal fynychu ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf at eu preswylfa, oherwydd:

- yr angen i gynnal parhad mewn addysg, a/neu
- gadw cysylltiad gyda sibliogiaid a chyfeillion

Caiff cludiant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ei gyllido a'i gydlynu gan Gwasanaethau Plant ac eithrio'r achosion lle caiff y lleoliad ei gytuno gan Addysg gyda rhesymeg glir, yn seiliedig ar anghenion addysg y disgybl.

Bydd y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cydlynu ceisiadau am gludiant plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY; fodd bynnag lle caiff ceisiadau am leoliad eu cytuno gan y Panel ADY yn seiliedig ar ddiwallu anghenion disgyblion, caiff y ceisiadau hyn eu cyllido gan Addysg a'u gweinyddu gan y Swyddog Cludiant, yn unol â'r Rheoliadau Eiddo. Caiff y cais am gludiant ei wneud ar-lein gan y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ynghyd â ffurflen a lenwyd, a gyflwynir i'r Swyddog Cludiant a'u copïo i'r tîm ADY, gan roi manylion y gofynion cysylltiedig.

Mewn achosion lle mae'r plant sy'n derbyn gofal yn preswyllo ac yn cael eu haddysgu tu allan i Flaenau Gwent; bydd yr Awdurdod Lleol lle mae'r disgybl yn preswyllo yn gyfrifol am wneud trefniadau cludiant. **Mae hyn yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Bydd yr Awdurdod Lleol cartref yn talu'r holl gostau ad-dalu i'r Cyngor lle mae'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn byw.**

Ni chaiff cludiant ei ddarparu fel mater o drefn mewn amgylchiadau lle mae plentyn/plant yn derbyn gofal mewn llety seibiant. Os yw'n bosibl i gludiant ysgol presennol ddarparu ar gyfer y disgybl(ion) i ac o eu darpariaeth seibiant heb oedi neu ddargyfeirio o'r llwybr, gellir ystyried hyn yn amodol ar adolygiad rheolaidd. Rhaid gwneud ceisiadau ymlaen llaw i'r Swyddog Cludiant (lle'n briodol) ac nid yn uniongyrchol gyda gyrwyr/hebryngwyr/gweithredwyr.

6.0 Sut i wneud cais am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol

Mae ffurflenni cais ar gyfer cymorth cludiant ar gael drwy un o'r ddau ddull dilynol:

- Gallwch wneud cais ar-lein drwy fynd i wefan Blaenau Gwent: www.blaenau-gwent.gov.uk a dewis cofrestr "Fy Ngwasanaethau", Ysgolion a Dysgu, a llenwi'r ffurflen gais am gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16.
- Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd, yna gallwch ddal i wneud cais drwy gysylltu â Chanolfan Gyswilt y Cyngor ar 01495 311556 fydd yn llenwi ffurflen gais ar eich rhan dros y ffôn.

Mae'r Cyngor yn anelu prosesu pob cais a dderbyniwyd o fewn 10 diwrnod ysgol, os nad oes angen darpariaeth ychwanegol a all fod yn fwy na 10 diwrnod yn dibynnu ar anghenion y disgybl.

7.0 Cludiant yn ôl disgrisiwn i feithrinfa cyfrwng Cymraeg

Yn unol â dymuniad y Cyngor i hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, cyn belled â bod lleoedd ar gael o fewn y trefniadau cludiant cyfredol, bydd y Cyngor yn cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion meithrin sy'n byw dros 1.5 milltir rhwng cyfeiriad eu cartref ag Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac Ysgol Gymraeg Tredegar..

Gellir dileu'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgrisiwn ar y sail ei bod yn gostwng y lleoedd cludiant sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol.

8.0 Ystyriaethau cludiant

8.1 Newid cyfeiriad - trefniadau cludiant

Bydd gan ddisgyblion sy'n astudio am eu harholiadau TGAU ym mlynnyddoedd 10 neu 11 sy'n newid cyfeiriad ar ôl hanner tymor yr hydref ym mlwyddyn 10 hawl i gludiant ysgol am ddim - **fel arfer bas bws, nid yw'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu tacsï ar wahân**; cyn belled â bod y cyfeiriad newydd **dros 2 filltir o bellter cerdded** o'u hysgol bresennol. Gellir hefyd ddarparu cludiant ar gontract presennol. Darperir yr hawl i gludiant am ddim yn yr achos hwn os oedd y disgybl yn mynychu eu hysgol dalgylch cyn symud. Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau y gall y disgybl gael mynediad i'r manau a ddynodwyd ar gyfer codi a gollwng os ydynt yn defnyddio cludiant presennol ac y gall y disgybl gael mynediad i safleoedd bws dynodedig ar gyfer deiliaid tocynnau tymor.

8.2 Ysgolion gyda champysau/safleoedd lluosog

Ar gyfer ysgolion gyda champysau/safleoedd lluosog, os na all y campws agosaf at gartref y disgybl gynnig lle ac y cynigir campws neu safle arall sydd dros y meini prawf ar gyfer pellter, yna darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.

8.3 Disgyblion a gafodd eu gwahardd yn barhaol a symudiadau wedi'u rheoli

Os cafodd plentyn ei wahardd yn barhaol o'r ysgol, bydd y Cyngor yn darparu pas bws i gefnogi newid lleoliad fel sydd angen. Os cafodd plentyn oedran cynradd ei wahardd yn barhaol o'r ysgol, bydd y Cyngor yn darparu cludiant priodol fel sydd angen/angenrheidiol. Dim ond ar gyfer disgyblion sy'n ymrestru mewn lleoliad prif ffrwd arall o fewn Blaenau Gwent y darperir cludiant a/neu bas bws.

Lle mae disgybl oedran uwchradd wedi newid ysgol fel rhan o'r broses symud wedi'i reoli, darperir pasiau bws i alluogi'r plentyn i fynychu'r ysgol newydd. Os yw disgybl oedran cynradd wedi symud ysgolion fel y cytunwyd drwy'r broses symud wedi'i reoli, bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant riodol fel y cytunwyd/fel sydd angen.

*Ni fydd hyn yn weithredol ar gyfer disgyblion lle mae'r rhieni wedi dewis newid ysgolion.

8.4 Gweithgareddau cyn/ar ôl ysgol

Os yw disgybl yn mynychu clwb brecwast neu weithgaredd/clwb ar ôl ysgol, yna daw'n gyfrifoldeb y rhiant/gofalwr i gludo eu plant i ac o weithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol.

8.5 Tripliau ysgol

Ar achlysuron pan mae tripliau ysgol yn disgyn tu allan i'r diwrnod ysgol arferol, bydd angen casglu disgyblion sy'n derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref o'r ysgol o'r ysgol yn ôl y trefniadau yn 8.4 uchod.

8.6 Hebryngwyr

Mae'n ofynnol i holl yrwyr darpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a hebryngwyr gael gwiriadau estynedig gan y Cynllun Datgelu a Gwahardd (DBS). Gall y Cyngor ddarparu mwy na un hebryngwr ar gludiant os yw'r angen yn codi. Caiff yr holl drefniadau eu hadolygu'n rheolaidd.

Gall y darparydd cludiant newid yn ystod y cyfnod y mae disgybl yn derbyn cludiant Cyngor - gan olygu y gall gyrwyr a hebryngwyr newid; fodd bynnag, lle'n bosibl, bydd darparwyr cludiant yn sicrhau parhad gyrwyr/hebryngwyr.

8.7 Ad-dalu cymorth teithio

Gellir hawlio treuliau tanwydd mewn amgylchiadau lle na fedrir darparu cludiant addas a bod anghenion y disgybl yn golygu y gall fod angen i'r rhiant/gofalwr gludo eu plentyn. Ar gyfer disgyblion gyda ADY caiff hyn ei asesu gan y tîm ADY mewn partneriaeth gyda'r Swyddog Cludiant a'i gytuno mewn ysgrifen cyn cwblhau trefniadau.

Mewn achosion lle nad yw'r cyngor yn gallu sicrhau gweithredwr allanol, neu os mai hwn yw'r opsiwn ariannol gorau, cynigir cyllideb cludiant personol i rieni i gludo eu plant i ac o'r ysgol. Bydd y cynnig hwn yn berthnasol i bawb, gan gynnwys dysgwyr ADY.

Rydym wedi bod yn darparu Cyllidebau Cludiant Personol (PTB) yn ôl disgrisiwn mewn amgylchiadau penodol ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn cynnig y byddwn yn awr yn cynnig PTB lle na allwn sicrhau cludiant annibynnol, lle mae costau'r contract yn fwy na chostau PTB, neu lle rydym yn darparu cludiant i ddysgwyr sy'n byw lai na milltir o'u hysgol addas agosaf ond nad oes ganddynt lwybr cerdded addas. Bydd rhieni neu warcheidwaid yn derbyn cyllideb o 45c y filltir (os yw'r rhiant yn cludo ei blentyn ei hun). Bydd hyn yn berthnasol i bob dysgwr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys dysgwyr ADY. Bydd hwn yn drefniant gwirfoddol a phan fydd rhieni/gwarcheidwaid yn gwrthod, bydd y cyngor yn parhau i ddarparu cludiant.

8.8 Disgyblion ar ymweliadau cyfnewid

Nid yw'r Cyngor yn darparu cymorth cludiant i ddisgyblion ar ymweliadau cyfnewid.

8.9 Presenoldeb disgyblion

Gall y Cyngor ddileu'r cynnig teithio mewn amgylchiadau lle mae disgybl sy'n derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol a dim yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Caiff hyn ei benderfynu ar sail achos unigol. Bydd rhieni/gofalwyr y rhai y canfyddir eu bod yn torri'r cynnig teithio oherwydd materion presenoldeb yn dod yn gyfrifol am sicrhau trefniadau teithio disgyblion i ac o'r ysgol. Caiff y broses hon ei goruchwyllo gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

Ar ddiwedd pob tymor, bydd y tîm cludiant yn rhoi rhestr o ddisgyblion sy'n dod i'r categori uchod i'r Gwasanaeth Lles Addysg a byddir yn adolygu presenoldeb o gymharu â chofnodion y disgybl. Dilynir y broses ddilynol lle dynodir disgyblion:

- Cyswllt gyda rhieni i drafod materion cludiant
- Rhoi rhybudd i rhieni o'r bwriad i ddileu cludiant os nad oes gwelliant
- Adolygu presenoldeb ar ddiwedd yr hanner tymor dilynol
- Os bu gwelliant, bydd cludiant yn parhau ond os na, caiff y cynnig cludiant ei ddileu.

8.10 Ysgolion a ffafir/Dewis rhieni

Mae rhieni/gofalwyr sy'n dewis ysgol heblaw eu dalgylch addas agosaf yn gyfrifol am fynd â'u plentyn i ac o'r ysgol drwy gydol yr amser y mae eu plentyn yn mynychu'r ysgol. Mae hyn hefyd yn weithredol ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol; mae mwy o wybodaeth yn adran 4.3.

8.11 Disgyblion dan 16 oed sy'n mynychu darpariaeth hyfforddiant alwedigaethol

Nid yw Cyngor Blaenau Gwent yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu darpariaeth hyfforddiant, os na chafodd disgyblion eu lleoli gan Baneli Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Banel Dysgwyr Agored i Niwed, yn y paneli hynny caiff y penderfyniad ei wneud yng nghyswllt y math o gludiant.

8.12 Preswyliaeth ddeuol

Lle mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn byw'n barhaus mewn mwy nag un cyfeiriad, bydd y Cyngor yn darparu cludiant o'r ddau gyfeiriad cyhyd â bod y ddau ohonynt yn y dalgylch ar gyfer yr ysgol dan sylw ac wedi eu lleoli dros y pellter cerdded cymhwyso.

8.13 Ardaloedd gwledig/cysylltiadau cludiant

Lle'n briodol, bydd y Cyngor yn defnyddio ei ddisgresiwn wrth benderfynu p'un ai a fydd angen darparu cyswllt taci i wasanaeth bws presennol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig.

8.14 Cyflyrau meddygol dros dro

Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cyngor yn deall y gall iechyd disgybl prif ffrwd gyfyngu'r defnydd o gludiant prif ffrwd oherwydd cyflwr meddygol dros dro. Yn yr achosion hyn cynhelir asesiadau unigol i asesu anghenion a risg disgyblion.

Os oes gan ddisgybl ADY gyflwr meddygol dros dro, gellir darparu cludiant ar gais gan naill ai'r tîm ADY neu'r tîm Lles Addysg. Caiff trefniadau cludiant a ddarperir ar seiliau meddygol eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i geisiadau am gludiant hirdymor oherwydd cyflwr meddygol gael eu gwneud i dîm ADY y Cyngor ynghyd â llythyr gan ymgynghorydd meddygol y disgybl. Mae'n rhaid i'r cais amlinellu cyflwr meddygol y disgybl a'r risgiau iechyd pe byddai'n ofynnol iddynt gerdded i ac o'r ysgol.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau uniongyrchol gan feddygon teulu.

8.15 Cynigion trefniadaeth ysgolion

Bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, lle mae cau ysgol yn golygu fod disgybl yn cael ei drosglwyddo i ysgol arall. Bydd dysgwyr sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol a gafodd ei chau yn cael cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch newydd neu'r ysgol agosaf, yn amodol ar gyflawni meini prawf pellter y polisi - nes bydd y disgybl yn gorffen addysg yn yr ysgol honno. Os yw'r dysgwr yn gadael yr ysgol yma, bydd hawl i'r ddarpariaeth yn ôl disgrisiwn yma'n dod i ben.

9.0 Teithio Ôl 16

9.1 Hawl i gludiant

Bydd pob myfyriwr sy'n byw ym Mlaenau Gwent yn cael tocyn bws rhatach neu grant teithio i Hafan Dysgu Blaenau Gwent, Campws Glynebwy fel eu darparydd Ôl 16 dynodedig neu'r sefydliad agosaf lle mae eu cwrs ar gael yn dibynnu ar y meini prawf dilynol:

- mae'n rhaid i fyfyrwyr fod rhwng 16 a 19 oed (dan 19 oed cyn 1 Medi pan fydd eu cwrs yn dechrau) i gymhwyso;
- bydd myfyrrwyr yn preswyllo ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- mae'n rhaid i fyfyrwyr breswyllo 2 filltir neu fwy (pellter cerdded agosaf) o'u campws coleg agosaf a dylai'r myfyrrwyr fynychu cwrs llawn-amser sydd angen presenoldeb am 16 neu fwy o oriau yr wythnos neu o leiaf 4 diwrnod o bresenoldeb bob wythnos yn y sefydliad.

Nid yw myfyrrwyr a disgyblion 19 oed neu drosodd ar ddechrau'r cwrs yn gymwys am gymorth teithio gan y Cyngor ac yn yr amgylchiadau hyn cânt eu cynghori i gysylltu â'u coleg perthnasol i gael manylion unrhyw ddarpariaeth cludiant sydd ar gael.

Caiff pob cludiant ar gyfer disgyblion Ôl 16 yn cynnwys y rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ei gytuno ar sail achos unigol gan y tîm ADY gan ymgynghori gyda'r Swyddog Cludiant. Gall y Cyngor ddarparu cludiant am hyd at uchafswm o dair blynedd.

Mae'r meini prawf ar gyfer cludiant ADY Ôl-16 fel sy'n dilyn:

- os yw'r myfyriwr yn cymhwyso ar sail pellter;
- os yw'r tîm ADY mewn cysylltiad gyda'r tîm Trawsnewid Addysg yn dynodi fod angen cludiant beth bynnag fo'r pellter, oherwydd natur angen meddygol, angen dysgu ychwanegol a/neu anabledd y myfyriwr; neu,
- os yw'r tîm ADY mewn cysylltiad a'r tîm Trawsnewid Addysg yn penderfynu nad oes unrhyw ddarpariaeth coleg addas o fewn y Fwrdeistref sy'n diwallu anghenion y disgybl ADY. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r Cyngor yn edrych am leoliad addas tu allan i'r sir.

*Caiff y trefniadau uchod eu hadolygu yn unol ag unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r myfyriwr/myfyrwr a all effeithio ar eu hawl neu ofyniad cludiant.

9.2 Grant teithio

Polisi presennol y Cyngor yw darparu cymorth teithio i'r rhai sy'n cyflawni'r meini prawf hyd at uchafswm o £150 fesul sesiwn academiaidd. Caiff hyn ei dalu bob tymor fel sy'n dilyn: £15 hydref, £50 gwanwyn a £50 haf.

9.3 Addysg cyfrwng Cymraeg / Ffydd

Mae'n ofynnol i ddisgyblion sy'n dymuno dilyn eu hastudiaethau Ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg neu fynychu ysgol Ffydd deithio ymhellach ar gyfer eu haddysg, heb unrhyw lwybrau bws gwasanaeth cyhoeddus uniongyrchol. Mae'r myfyrwr hyn yn cael cyfle i ddefnyddio'r ddarpariaeth bws contract presennol yn lle'r Grant Teithio, os yn briodol.

9.4 Sut i wneud cais

Mae ceisiadau am gymorth teithio ar gael ar wefan Blaenau Gwent. Gall rhieni/myfyrwr gyflwyno cais am gymorth cludiant ar unrhyw amser; fodd bynnag mae bob amser gynnydd mewn galw cyn dechrau blwyddyn academiaidd a chaiff rhieni eu cynghori i ganiatáu amser ychwanegol. Mae'r Cyngor yn gosod targed i brosesu pob cais a dderbyniwyd o fewn 10 diwrnod ysgol/coleg os nad oes angen darpariaeth arbenigol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan ddilydol www.coleggwent.gov.uk a <http://www.blaenau-gwent.gov.uk/resident/schools-learning/school-transport/>

10.0 Gweithdrefnau

10.1 Llwybrau diogel i'r ysgol/trefniadau teithio gan ddysgwyr

Caiff llwybrau diogel i'r ysgol eu hasesu'n unigol gan yr Adran Cludiant yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru (2014). Ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel i blentyn/person ifanc ei gerdded ar ei ben ei hun neu gydag oedolyn, lle'n briodol. Cydnabyddir y gall achlysuron godi pan y gallai llwybrau ddod yn beryglus. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol am bellteroedd dan y terfynau ar ddisgresiwn er budd diogelwch y dysgwyr perthnasol. Bydd y Cyngor yn asesu diogelwch llwybrau drwy ddefnyddio meini prawf clir y Cyngor a gwneir penderfyniad ar sail asesu risg lle mae angen.

10.2 Tywydd garw ac ymateb argyfwng COVID-19

Gall tywydd garw effeithio ar allu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ddarparu cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol yn ddiogel. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd diogelwch a llesiant y plant a darparwyr cludiant yn parhau'n brif flaenoriaeth i ni. Lle mae tywydd garw yn golygu bod angen canslo cludiant, bydd yr ysgol bob amser yn hysbysu rhieni ar y cyfle cynharaf i osgoi ymyrryd diangen.

Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ar gau ysgolion ei rhoi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod cyfnodau o dywydd garw.

Os caiff darpariaeth Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ei chanslo, bydd y tîm Trawsnewid Addysg a'r Swyddog Cludiant yn cynghori ysgolion orau ag y gallant pryd y mae gwasanaethau cludiant yn debygol o aildechrau. Yn ystod y cyfnodau hyn, os caiff yr ysgol ei chau, bydd yr Awdurdod Lleol/Ysgol yn anelu i hysbysu rhieni/gofalwyr am y datblygiadau diweddaraf.

Os caiff cludiant ei ganslo oherwydd tywydd garw, mae'r dilynol yn weithredol:

- lle caiff llwybr ei ganslo a bod y rhiant/gofalwr yn penderfynu cludo'r plentyn ei hunain, mae'r rhiant/gofalwr yn parhau'n gyfrifol am y daith adref neu unrhyw gostau dilynol pe na byddai'n bosibl dychwelyd adref;
- os na all plentyn fynychu ysgol oherwydd tywydd garw, mae'r rhiant/gofalwr yn parhau'n gyfrifol am eu plentyn; a
- gellir cysylltu mewn argyfwng tu allan i oriau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent drwy'r brif ganolfan gyswllt - 01495 311556

Yn unol â phandemig COVID-19, caiff unrhyw newidiadau i ddarpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac ôl-16 ei hysbysu i ysgolion, colegau a theuluoedd disgyblion/myfyrwyr sy'n defnyddio darpariaeth cludiant. Bydd newidiadau yn adlewyrchu canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

10.3 Gwaharddiadau o gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cod ymddygiad teithio sy'n cynnwys pob darpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd angen i bob parti lofnodi Contract Ymddygiad Cludiant Blaenau Gwent cyn cymeradwyo darpariaeth cludiant.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cadw'r hawl i wrthod cymorth teithio lle mae ymddygiad plentyn/person ifanc yn golygu ei bod yn annerbyniol dan y cod teithio a/neu yn cyflwyno risg sylweddol i iechyd a diogelwch, neu lle dynodwyd difrod gormodol a phwrpasol i gerbydau. Yn yr achosion hyn, bydd y tîm Cludiant yn cyhoeddi llythyrau rhybudd ac ni fydd rhieni yn derbyn dim mwy na phedwar llythyr. Mae'r broses rheoli ymddygiad fel sy'n dilyn:

- **Cam 1** - codi'r pryderon/materion yn ddechreuol
- **Cam 2** - rhybudd anffurfiol yn nodi'r camau unioni a gymerwyd a photensial dileu cludiant
- **Cam 3** - rhybudd terfynol yn dweud y caiff cludiant ei ddileu.
- **Cam 4** - bydd yr ysgol ar y cyd gyda'r tîm Cludiant yn cyhoeddi'r llythyr terfynol yn cadarnhau dileu cludiant, gan nodi'r rheswm am hynny, dyddiad y bwriedir ei ddileu a llwybr apelio i rieni.

Efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw'r camau gweithredu a awgrymir ar gyfer pob categori yn briodol. Gall awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu benderfynu bod y dull a awgrymir naill ai'n rhy hael neu'n rhy llym. Yn y pen draw, penderfyniad yr awdurdod lleol yw'r camau gweithredu priodol, ar ôl ymgynghori â'r ysgol.

Os caiff disgybl ei wrthod/wahardd o gludiant oherwydd materion ymddygiad, daw rhieni/gofalwyr wedyn yn gyfrifol fod eu plentyn yn mynychu'r ysgol ac unrhyw gludiant sydd ei angen.

Bydd unrhyw ddifrod maleisus sy'n golygu cost i'r darparydd cludiant ar gyfer naill ai drwsio neu gludiant yn gyfrifoldeb rhiant/gofalwr y disgybl dan sylw. Gall ymddygiad parhaus neu fynych sy'n arwain at ddifrod marwain at wahardd o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Pe bydd sefyllfa'n codi yn ystod cludiant a ystyrir fel perygl iechyd a diogelwch, dylid nodi y gellir symud disgyblion o'r cerbyd gyda phresenoldeb yr heddlu os bernir bod angen hynny a chaiff darpariaeth cludiant pellach yn cael ei dileu ar unwaith nes y cynhelir ymchwiliad.

10.4 Problemau a gwaharddiadau cludiant ADY

Bydd y tîm Cludiant yn monitro ac yn adolygu problemau a digwyddiadau'n ymwneud â chludiant ADY ac yn penderfynu gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol ar unrhyw addasiadau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer y disgybl(ion).

Mewn achosion lle mae problemau mynych h.y. ymddygiadol a/neu feddygol sy'n golygu:

- nad yw'r trefniadau cludiant a gynlluniwyd mwyach yn diwallu anghenion y disgybl; a/neu
- os oes risgiau iechyd a diogelwch i'r disgybl a hefyd y contractwr

Bydd y tîm Cludiant yn ceisio gweithio gyda'r ysgol yn y lle cyntaf. Lle mae problemau ymddygiad sy'n achosi pryderon am iechyd a diogelwch, anfonir llythyrau at rieni yn eu hysbysu am y problemau a bwriad y Cyngor ynghylch rheoli neu ddileu cludiant, a/neu ddefnyddio datrysiadau eraill addas. Ni fydd mwy na phedwar llythyr yn cael eu cyhoeddi cyn gwrthod/dileu cludiant. Mae'r broses rheoli ymddygiad fel sy'n dilyn:

- **Cam 1** - codi'r pryderon/materion yn ddechreuol
- **Cam 2** - rhybudd anffurfiol yn nodi'r camau unioni a gymerwyd a photensial adolygu/dileu cludiant
- **Cam 3** - rhybudd terfynol yn dweud y caiff cludiant ei ddileu
- **Cam 4** - caiff cludiant ei ohirio a hysbysir y rhieni mewn ysgrifen, yn disgwyl asesiad manwl o risgiau ac anghenion cludiant y disgybl. Caiff Grŵp Adolygu wedyn ei gydlyn gan y Swyddog Cludiant, gyda chynrychiolaeth o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol, er mwyn penderfynu ar ddatrysiad addas.

Os caiff disgybl ei wrthod neu ei wahardd o gludiant oherwydd problemau ymddygiad a/neu faterion eraill, wedyn daw rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am bresenoldeb eu plentyn yn yr ysgol ac unrhyw gludiant sydd ei angen, nes y canfyddir datrysiad addas.

Mae unrhyw ddifrod maleisus sy'n golygu cost i ddarparwydd y cludiant am naill ai atgyweirio neu lanhau yn parhau'n gyfrifoldeb rhiant/gofalwr y disgybl dan sylw. Gall ymddygiad parhaus neu fynych sy'n arwain at ddifrod bwriadol arwain at wahardd y disgybl o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

10.5 Diogelu

Diogelwch plant/pobl ifanc ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yw blaenoriaeth gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn neilltuol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn sicrhau:

- bod pob darparwydd ar gontract ar gyfer y ddarpariaeth a bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r telerau a'r amodau a nodir o fewn y contract
- os yw'r Cyngor yn dynodi unrhyw bryderon am ddiogelu ynghylch darparwydd neilltuol neu aelod o staff cysylltiedig, caiff y broses ei thrin yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru;
- bod y DBS wedi gwirio a chlirio pob gyrrwr a hebryngwr;
- bydd pob gyrrwr a hebryngwr yn cael mynediad i hyfforddiant diogelu ac mae'n **rhaid** iddynt hysbysu'r tîm Cludiant, yr ysgol, a lle'n briodol, yr Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiymdroi am unrhyw bryderon y gallant eu dynodi;
- bod pob gyrrwr a hebryngwr yn cario dull adnabyddiaeth;
- darperir gwregysau côl a lletraws ar bob cerbyd contract;
- darperir seddi car/codi yn unol â deddfwriaeth bresennol y Llywodraeth – cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw hyn;
- dim ond pan gytunwyd ymlaen llaw neu ei ddynodi fel rhan o'r adolygiad y bydd y Cyngor yn darparu offer arbenigol;
- mae rhieni/gofalwyr disgyblion cynradd yn gyfrifol am sicrhau fod oedolyn cyfrifol i gasglu eu plentyn/plant ar y man gadael bob dydd;
- mae rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n derbyn cludiant ADY yn gyfrifol am sicrhau fod oedolyn cyfrifol o fewn y cartref adeg codi a gollwng bob dydd;
- gyrrwyr a hebryngwyr yn derbyn hyfforddiant briodol ac yn gyfarwydd gydag offer diogelwch ac argyfwng;
- gyrrwyr, hebryngwyr a gweithredwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau, yn neilltuol mewn sefyllfaoedd o argyfwng; a
- defnyddwyr cadair olwyn yn cael eu ffrwyno'n gywir. Bydd angen i gadeiriau olwyn gyflawni gofynion prawf damwain penodol a awdurdodwyd (gellir cadarnhau'r fanyleb yma'n uniongyrchol gan y defnyddiwr mewn cysylltiad gyda'n tîm Cludiant).

10.6 Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg - Cod Arfer Da

Ar draws pob darpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a dysgu ôl 16, mae'r Cyngor yn gweithredu **Cod Arfer Da** ar gyfer disgyblion, myfyrwyr, rhieni, ysgolion a gweithredwyr cludiant. Mae'r cod ymarfer ar gael ar y ddolen islaw:

http://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Resident/Schools_and_Learning/SchoolTransport_CodeofGoodPractice.pdf

10.6 Cludiant am ddim - hawl i ddileu

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddileu cludiant a ddyfernir, os gwneir camgymeriad neu lle mae deddfwriaeth wedi newid sy'n effeithio ar hawl disgybl neu ddisgyblion yn defnyddio cludiant ysgol. Bydd y Cyngor yn anrhydeddu'r ddarpariaeth cludiant ar gyfer y disgybl(ion) dan sylw am weddill yr hanner tymor academaidd pryd y dynodwyd y camgymeriad dyfarnu, neu fod deddfwriaeth yn dod yn effeithlon.

Cynhelir adolygiad cyfnodol ar yr holl gludiant a ddyfernir.

10.8 Gweithdrefn apelio

Lle mae un o'r amgylchiadau dilynol yn berthnasol:

- plentyn neu berson ifanc heb fod yn gymwys am gymorth teithio;
- y bu newid mewn trefniadau cludiant ac na chafodd y rhiant/gofalwr ei hysbysu; a
- lle na chytunwyd ar gludiant.

Gall rhieni/gofalwyr ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried ac wedyn cyhoeddir ffurflen apêl. Gall rhieni/gofalwyr wedyn dynnu sylw at amgylchiadau eithriadol y dymunant iddynt gael eu hystyried yng nghyswllt eu hawl.

Dylid gwneud apeliadau mewn ysgrifen at y tîm Trawsnewid Addysg a lle bynnag sy'n bosibl, eu hanfon drwy bost wedi'i gofnodi i sicrhau dosbarthu/olrhain. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth yn gysylltiedig ag apeliadau at:

**Rheolwr Newid Busnes Trawsnewid Addysg
Swyddfeydd Cyffredinol, Heol y Gwaith Dur, Glynabwy.**

Caiff apeliadau wedyn eu hystyried gan y Panel Apêl fydd yn mynd ati i benderfynu ar lefel yr anfantais i'r plentyn os na roddir cludiant iddynt. Caiff yr anfantais ei ystyried yng nghyswllt:

- pellter
- anabled; a/neu,
- ystyriaethau meddygol ar gyngor ymgynghorydd meddygol. Ni chaiff nodiadau meddygol gan feddygon teulu eu derbyn.

Bydd rhieni wedyn yn cael 10 diwrnod gwaith i gyflwyno apêl o ddyddiad cyhoeddi'r llythyr gwrthod. Caiff eu hapêl wedyn ei chlywed o fewn 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad cau penodol a nodir o fewn y llythyr gwrthod.

10.9 Gweithdrefn monitro

Bydd pob cerbyd ar gael ar gyfer gwiriadau ar hap gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) neu gorff addas arall, pan fo angen. Caiff unrhyw gŵyn a dderbynnir gan y Cyngor yng nghyswllt gwasanaethau neu gerbydau eu hymchwilio yn unol â pholisi cwynion y Cyngor. Os cadarnheir cwyn, cymerir y camau angenrheidiol a phriodol yn unol â'r contract neu fel mater o frys a rhoddir adroddiad arnynt mewn modd amserol i Dîm Rheoli y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Bydd y Cyngor yn cynnal gwiriadau ar hap ar contractau i sicrhau y cânt eu gweithredu yn unol â thelerau ac amodau y Cyngor. Cynhelir y gwiriadau dilynol fel rhan o'r ymarferiad monitro yma:

- prydlondeb;
- cadw at y llwybr;
- maint y cerbyd;
- trwyddedau; a
- gwiriadau DBS ar y staff wedi eu cynnal.

Cynlluniwyd y cyfan uchod i sicrhau teithio diogel a hwylus.

11.0 Geirfa

Adolygiad Swyddog	Y broses o rywun o fewn y Cyngor yn edrych eto ar gais am gymorth cludiant.
Anghenion Cludiant Arbennig	Gall rhai disgyblion fod ag anghenion cludiant arbennig sy'n deillio o anabledd neu angen dysgu ychwanegol.
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Disgybl y dynodwyd fod ganddo/ganddi angen dysgu ychwanegol
Ardal Ddynodedig	Ardal ddaearyddol sydd fel arfer yn cynnwys plwyfi a wasanaethir gan ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol (gweler adran 2.2 ar gyfer ysgolion ffydd/a gynorthwyr yn wirfoddol).
Amddiffyn Plant	Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo llesiant. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn risg o ddioddef niwed sylweddol fel canlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.
Dalgylch	Ardal ddaearyddol wedi'i marcio sy'n cynnwys strydoedd o amgylch ysgol
Diogelu a hyrwyddo lles plant	Gwarchod plant rhag cam-driniaeth ac esgeulustod, atal amhariad ar eu hiechyd neu ddatblygiad a sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithlon i'w galluogi i gael y cyfleoedd bywyd gorau oll.
Disgybl	Person ifanc sydd o oedran ysgol gorfodol sy'n dechrau yn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed ac sy'n dod i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ym Mlwyddyn 11.
Llwybr Addas y Gellir ei Gerdded	Llwybr lle gall plentyn gerdded i ac o'r ysgol yn ddiogel rhag traffig - gyda'r rhiant neu 'oedolyn cyfrifol' arall os yw'r rhiant yn penderfynu bod angen hynny. Os na all rhiant wneud hyn, nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am hebrwng eich plentyn i'r ysgol.
Myfyriwr	Person ifanc sy'n mynychu chweched dosbarth neu goleg ar ôl oedran statudol ysgol, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ym Mlwyddyn 11.
Panel Dysgwyr Agored i Niwed	Disgybl y dynododd y panel ei fod yn agored i niwed.
Pellter Cerdded Statudol	Fel y nodir yn adran 2, yn unol â'r diffiniad a roddir yn Neddf Addysg 1996.

Pellter Teithio Byrraf	Y llwybr diogel byrraf y gellir ei gerdded rhwng y brif fynedfa i ac o'ch eiddo preifat, megis eich clwyd flaen neu dop eich heol breifat a chlwyd agosaf yr ysgol.
Plant sy'n Derbyn Gofal	Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol neu sy'n cael eu 'lletya gan' awdurdod lleol.
Rhiant/Gofalwr	Unrhyw un sy'n gyfrifol am ofal plentyn. Defnyddiwn yr un diffiniad ag a nodir yn Neddf Addysg 1996.
Ysgol Addas Agosaf	Ar gyfer dibenion cludiant, efallai nad yr ysgol addas agosaf fydd yr ysgol dalgylch.
Ysgol a Ffafirir	Mae gan rieni hawl i ddweud eu bod yn ffafrio ysgol heblaw'r ysgol dalgylch. Gelwir hyn yn 'ysgol a ffafirir'. Bydd yr ysgol yn parhau'n ysgol a ffafirir pan mae rhieni yn gwneud cais am help gyda chludiant ar hyd presenoldeb y disgybl.
Ysgol Dalgylch	Ysgol o fewn y dalgylch.

11.1 Ysgolion Blaenau Gwent

Mae gan Flaenau Gwent yr ysgolion a'r ddarpariaeth ddilynol ar gyfer disgyblion:

- **Ysgolion Cymunedol a Gynhelir** – ysgolion a gaiff eu rheoli gan bennaeth yr ysgol a llywodraethwyr, mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Y Cyngor sy'n trefnu derbyn disgyblion.
- **Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr** - ysgolion a gefnogir ar y cyd gan y Bwrdd Crefyddol perthnasol a'r Cyngor. Fel arfer bydd y llywodraethwyr yn cyflogi'r holl staff ac yng ngofal derbyn disgyblion. Weithiau caiff yr ysgolion hyn eu galw yn ysgolion 'ffydd' neu 'enwadol'.
- **Ysgolion Sefydledig** - ysgolion a gynhelir gan y Cyngor ond y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion. Ar gyfer dibenion cymorth cludiant, caiff yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Sefydledig eu trin yn yr un ffordd â disgyblion sy'n mynychu ysgolion cymunedol.
- **Canolfannau Adnoddau** - mae gan rai ysgolion prif ffrwd Ganolfannau Adnoddau sy'n ddarpariaethau a gyllidir gan y Cyngor sy'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion na all eu hanghenion gael eu diwallu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae gan Ganolfannau Adnoddau lefel uwch o staffio yn rhoi cefnogaeth mwy arbenigol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae disgyblion yn cael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd lle'n addas a chaiff lleoli mewn Canolfan Adnoddau ei benderfynu gan Banel ADY y Cyngor.
- **Ysgol Arbennig** - ysgol sy'n darparu ar gyfer oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol na all eu hanghenion gael eu diwallu'n briodol mewn gosodiad prif ffrwd neu Ganolfan Adnoddau. Mae ysgolion arbennig yn derbyn disgyblion gydag anabled a chaiff lleoliad ei gytuno drwy Banel ADY y Cyngor. Mae'r Cyngor yn trefnu derbyn disgyblion ar gyfer pob ysgol arbennig.
- **Unedau Atgyfeirio Disgyblion** - darparu ar gyfer disgyblion gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac yn darparu lleoliadau tymor byr yn ogystal â thymor hirach. Mae'r Cyngor yn trefnu derbyn disgyblion drwy Banel ADY y Cyngor.
- **Model Ysgol Pob Oed 3-16** - lle mae mwy nag un campws neu safle'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Mae'r ysgol yn gyfrifol am dderbyn disgyblion ar gyfer pob dyraniad safle.

- **Ysgol Cyfrwng Cymraeg** - darparu ar gyfer plant a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae mwy o wybodaeth ar Ysgolion Blaenau Gwent ar gael yn Llyfryn Dechrau Ysgol Blaenau Gwent sydd ar gael ar wefan y Cyngor, drwy Derbyniadau Ysgol.

